Llywodraeth EM

# Beth ddywedoch chi am ein cynlluniau i wella cyfraith iechyd meddwl

Fersiwn Hawdd ei Ddeall o: Diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl - Ymateb y Llywodraeth i Ymgynghoriad



# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| 4 o egwyddorion | 5 |
| Rhesymau dros gadw pobl yn yr ysbyty | 7 |
| Eich hawl i fynd i'r tribiwnlys | 9 |
| Pobl sydd wedi mynd yn ôl i'r ysbyty | 11 |
| Rhoi mwy o bŵer i dribiwnlysoedd | 13 |
| Gwrandawiadau panel rheolwyr ysbyty | 15 |
| Dewis eich gofal a thriniaeth | 17 |
| Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwrando ar eich dewisiadau | 19 |
| Cynlluniau Gofal a Thriniaeth | 20 |
| Gwrthod triniaeth | 21 |
| Gofyn i dribiwnlys stopio eich triniaeth | 22 |
| Cytuno i fynd i'r ysbyty | 24 |
| Person enwebedig | 25 |
| Eiriolaeth | 27 |

| | Tudalen |
|---|---|
| Y Ddeddf Galluedd Meddyliol | 29 |
| Adrannau damweiniau ac achosion brys | 30 |
| Mynd i ysbyty iechyd meddwl o’r carchar | 32 |
| Pobl sydd wedi bod mewn trafferth gyda’r gyfraith | 34 |
| Y Goruchwylir Cymdeithasol | 35 |
| Pobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig | 37 |
| Pobl gydag anabledd dysgu sy'n mynd i anhawster gyda’r gyfraith | 39 |
| Adolygiadau Gofal (Addysg) a Thriniaeth | 41 |
| Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) | 42 |
| Gorchmynion Triniaeth Cymunedol (CTOs) | 43 |





Yn y ddogfen hawdd ei ddeall yma, mae'r geiriau anodd mewn print **trwm**. Mi fyddwn ni'n esbonio ystyr y geiriau yma mewn brawddeg ar ôl eu defnyddio.

# Cyflwyniad




Mae'r Llywodraeth a'r GIG yn gwella gofal ar gyfer pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl.



Rydyn ni eisiau newid y gyfraith fel bod cleifion yn cael mwy o reolaeth dros eu triniaeth ac yn cael y parch maent yn ei haeddu.



Rydyn ni eisiau i bobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig sydd â chyflwr iechyd meddwl i gael triniaeth addas mewn ysbyty os byddant ei hangen.



Fe ofynnom i bobl beth oeddynt yn feddwl am ein syniadau ar gyfer newid y gyfraith.




Mae'r adroddiad Hawdd ei Ddeall yma yn esbonio beth ddywedodd pobl, a beth ydyn ni'n mynd i'w wneud nesaf.

# 4 o egwyddorion




Mae **egwyddor** yn ffordd i wneud pethau.



Rydyn ni'n bwriadu newid y gyfraith fel ei bod yn dilyn y 4 egwyddor yma:

1. Dylai staff a gweithwyr proffesiynol barchu barnau a dewisiadau pobl.



2. Weithiau mae'n rhaid i ni gadw pobl yn yr ysbyty i wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel. Byddwn yn gwneud hyn cyn lleied â phosibl.



3. Dylai pobl gael help i deimlo'n well.



4. Dylai pobl gael eu trin â pharch fel person unigol.



## Dywedodd pobl

Roedd pobl yn cytuno’n gyffredinol gyda'r egwyddorion hyn.



Awgrymodd rhai pobl ffyrdd i wneud yn siŵr bod staff yn dilyn yr egwyddorion hyn.




Er enghraifft, dywedodd pobl y dylid cynnwys yr egwyddorion yma pan fyddwn ni:

- yn hyfforddi staff
- yn prynu gwasanaethau iechyd meddwl newydd
- yn gwirio gwasanaethau iechyd meddwl.



## Camau nesaf

Byddwn yn symud ymlaen gyda’r syniadau yma.

# Rhesymau dros gadw pobl yn yr ysbyty



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr mai dim ond am y rhesymau canlynol fydd pobl yn cael eu cadw mewn ysbyty:

- mae'n dda i'r person
- mae'n debygol iawn y byddai'n brifo ei hun neu rywun arall.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda'r syniadau yma.



Dywedodd rhai pobl y dylen ni esbonio beth mae 'da i'r person' yn ei olygu.



Dywedodd rhai pobl ei bod yn achosi gofid mawr i gael eu cadw yn yr ysbyty. Dim ond os oes wir angen ddylen ni wneud hyn.



# Camau nesaf

Byddwn yn dal i edrych ar
y rhesymau pam y gellir cadw pobl
yn yr ysbyty.

# Eich hawl i fynd i'r tribiwnlys



Mae **tribiwnlys** yn fath o lys cyfraith. Dyma ble bydd person swyddogol yn gwneud penderfyniad terfynol am rywbeth.



Bydd tribiwnlys yn penderfynu a ddylid eich cadw mewn ysbyty neu le diogel yn y gymuned, neu beidio.



Rydym eisiau i gleifion gael mynd i'r tribiwnlys yn fwy rheolaidd i weld a oes angen aros yn yr ysbyty neu beidio.

## Dywedodd pobl



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda’r syniad yma.

Dywedodd rhai pobl y dylid cael y tribiwnlysoedd yma'n aml iawn.



Dywedodd rhai pobl y byddai'n achosi lot o waith ychwanegol.



Dywedodd rhai pobl bod rheolwyr ysbytai yn gallu gofyn yn barod am dribiwnlysoedd os ydynt eisiau.




## Camau nesaf

Byddwn yn cynnal y tribiwnlysoedd yma'n gynharach.

Byddwn yn meddwl am y ffordd orau i drefnu'r tribiwnlysoedd yma.

# Pobl sydd wedi mynd yn ôl i'r ysbyty



Mae’r rhan yma am bobl sydd wedi dod allan o’r ysbyty fel eu bod yn gallu dal i gael triniaeth yn eu cymuned leol.



Weithiau dydy pethau ddim yn mynd yn dda, ac mae’n rhaid mynd yn ôl i’r ysbyty.



Yn yr achosion yma, rydyn ni'n meddwl nad oes angen mynd i dribiwnlys, oherwydd byddant yn gallu mynd yn ôl i'w triniaeth yn y gymuned yn fuan iawn, yn fwy na thebyg.

## Dywedodd pobl



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda hyn.



Roedd lot o bobl ddim yn siŵr.



Roedd pobl yn meddwl y dylai cleifion gael yr hawl i dribiwnlys, i wneud yn siŵr bod wir angen eu cadw yn yr ysbyty.



Roedd rhai pobl yn meddwl na fyddai cleifion yn cael y dewis na rheolaeth y dylent ei gael.



Roedd pobl eraill yn poeni am gost yr holl gyfarfodydd tribiwnlys yma.

## Camau nesaf




Byddwn yn gwneud y newid hwn yn raddol.



Byddwn yn siarad gyda gwahanol sefydliadau am sut i wneud hyn.

# Rhoi mwy o bŵer i dribiwnlysoedd



Rydyn ni'n meddwl y dylai cynghorau lleol a gwasanaethau iechyd wneud beth mae’r tribiwnlysoedd yn ddweud o fewn 5 wythnos.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Dywedodd rhai pobl nad oedd 5 wythnos yn ddigon hir ar gyfer pobl sydd angen llawr o gefnogaeth gymhleth.



Dywedodd rhai pobl y dylai'r tribiwnlys esbonio pwy ddylai wneud beth.



Dywedodd rhai pobl na ddylai'r tribiwnlys fedru gwneud gwahanol benderfyniadau i feddygon.



Dywedodd rhai pobl y dylai'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod yna ddigon o arian i drefnu'r gefnogaeth mae’r tribiwnlys yn ei orchymyn.



## Camau nesaf

Rydyn ni'n mynd i feddwl am y pwyntiau yma.

# Gwrandawiadau panel rheolwyr ysbyty



Rydyn ni'n meddwl na ddylai **gwrandawiadau panel rheolwyr ysbyty** fedru rhyddhau pobl o’u triniaeth.

Mae **gwrandawiadau panel rheolwyr ysbyty** ychydig fel mynd i dribiwnlys, ond gyda grŵp o wirfoddolwyr, sydd ddim yn gweithio i'r ysbyty, yn penderfynu a ddylech chi aros yn yr ysbyty neu beidio.

## Dywedodd pobl



Roedd rhai pobl yn cytuno. Roedd rhai pobl ddim yn siŵr.



Dywedodd rhai pobl fod y panel rheolwyr ysbyty yn gweithio'n ddigon da.



Dywedodd pobl eraill nad oedd y paneli ysbyty yn wirioneddol annibynnol.




Dywedodd rhai y dylai fod yna well rheolau o ran sut ddylid rhedeg y paneli ysbyty.



## Camau nesaf

Mi fyddwn ni'n meddwl rhywfaint mwy am hyn.

# Dewis eich gofal a thriniaeth



Rydyn ni eisiau i bobl allu dewis pa ofal a thriniaeth maent eisiau.



Rydyn ni eisiau i bobl allu ysgrifennu'r dewisiadau yma i lawr mewn dogfen.

Dylai pobl lenwi'r ddogfen pan maent yn ddigon da i wneud eu dewisiadau eu hunain.



Yna byddai'n rhaid i staff iechyd meddwl ddilyn y ddogfen ble fo'n bosibl os bydd y person yn rhy sâl i wneud ei benderfyniadau ei hun.




Fe ofynnom ni beth ddylid ei gynnwys yn y ddogfen.



## Dywedodd pobl

Dylai'r ddogfen gynnwys:

- unrhyw feddyginiaethau dydych chi ddim eisiau



- sut ydych chi eisiau derbyn eich triniaeth
- sut ydych chi eisiau cyfathrebu gyda phobl
- beth ddylai ddigwydd os byddwch chi'n mynd yn sâl yn sydyn
- pwy ddylai fod yn rhan o'ch gofal
- ble ydych chi eisiau cael eich trin.



Dywedodd rhai pobl y dylid ysgrifennu'r dogfennau yma yn yr un math o ffordd, fel eu bod yn hawdd i'w deall.



## Camau nesaf

Byddwn yn meddwl mwy am beth ddylai fod yn y dogfennau yma.

# Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwrando ar eich dewisiadau



Dydyn ni ddim yn meddwl y dylai doctor orfod cytuno bod person yn ddigon da i wneud y dewisiadau mae eisiau eu cynnwys yn ei ddogfen.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Byddai weithiau'n dda pe byddai doctor yn gwneud yn siŵr bod y person yn ddigon da i wneud y dewisiadau yn ei ddogfen, ond ddylai hyn ddim bod yn ofyniad.



## Camau nesaf

Byddwn yn meddwl mwy am sut allwn ni wneud yn siŵr bod staff iechyd meddwl yn dilyn y dewisiadau a wnaed yn nogfen rhywun.

# Cynlluniau Gofal a Thriniaeth




Rydyn ni'n meddwl y dylai'r gyfraith ddweud bod yn rhaid i bobl gael cynllun gofal a thriniaeth.



## Dywedodd pobl

Dylai'r claf ac aelodau'r teulu cael eu cynnwys wrth wneud y cynllun.




Dylai'r cynllun gysylltu gyda gweddill eich cynllun iechyd.

## Camau nesaf



Byddwn yn siarad gyda mwy o bobl am beth ddylai fod yn y cynllun gofal a thriniaeth.

# Gwrthod triniaeth



Credwn na ddylid eich gorfodi i gael triniaeth os ydych chi'n ddigon da i'w wrthod, hyd yn oed os yw'ch doctor yn meddwl ei fod yn fater brys.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Dywedodd rhai pobl ei bod yn deimlad ofnadwy cael eich gorfodi i gael triniaeth.



Dywedodd rhai pobl y byddai pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl penodol yn methu gwneud eu penderfyniadau eu hunain.




## Camau nesaf

Byddwn yn edrych ar greu rheolau clir am y mater yma.

# Gofyn i dribiwnlys stopio eich triniaeth



Rydyn ni'n meddwl y dylai pobl gael hawl i ofyn i dribiwnlys stopio doctor rhag rhoi triniaeth benodol iddyn nhw.

## Dywedodd pobl




Byddai'n ffordd well i gleifion **apelio** yn erbyn unrhyw driniaeth os nad yw'n ei hoffi.

Mae **apêl** yn rhywbeth gallwch wneud os nad ydych chi'n cytuno gyda phenderfyniad ac yn gofyn i gael ei newid.



Mae rhai pobl yn poeni nad yw swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau mewn tribiwnlys yn gwybod digon i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol.



Roedd rhai pobl yn meddwl y byddai'n well os mai dim ond doctoriaid sy'n gwneud penderfyniadau am driniaeth feddygol.



Dywedodd rhai pobl y dylai'r swyddogion sy’n gwneud penderfyniadau mewn tribiwnlys gael hyfforddiant i wneud penderfyniadau am driniaeth feddygol.

## Camau nesaf



Rydyn ni eisiau diogelu hawliau pobl.



Rydyn ni'n credu y gall y tribiwnlys helpu cefnogi'r claf i wrthod y driniaeth sy'n cael ei rhoi iddo.



Byddwn ni'n meddwl mwy am rôl y tribiwnlys yn y penderfyniadau triniaeth.

# Cytuno i fynd i’r ysbyty



Rydyn ni'n meddwl y dylai’r gyfraith roi’r hawl i chi ddweud os ydych eisiau mynd i'r ysbyty, os yw’ch iechyd yn mynd yn waeth.

## Dywedodd pobl



Dywedodd rhai pobl y byddai hyn yn golygu bod pobl yn mynd i'r ysbyty'n gynt, i gael y driniaeth sydd angen.



Dywedodd pobl eraill y dylech allu dweud pa mor hir fyddai'r driniaeth yma'n parhau. Dylai cleifion ddeall eu hawliau wrth gytuno i hyn.



Dywedodd rhai pobl y dylai fod yna ffordd i wneud yn siŵr os yw rhywun wedi cytuno i fynd i'r ysbyty neu beidio.



## Camau nesaf

Rydyn ni angen meddwl mwy am sut fyddai hyn yn gweithio.

# Person enwebedig



Mae **person enwebedig** yn berson sy'n gallu gwneud penderfyniadau a siarad ar eich rhan os na allwch chi wneud penderfyniadau eich hun.



Rydyn ni eisiau i’r gyfraith adael i chi ddewis y person enwebedig rydych chi ei eisiau, nid dim ond eich perthynas agosaf.



Rydyn ni eisiau i’r gyfraith ddweud bod yn rhaid gofyn i'ch person enwebedig am driniaeth ac unrhyw beth sy’n digwydd i chi yn yr ysbyty.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Mae angen i chi ddewis pwy ydych chi eisiau i fod eich person enwebedig.



Mae'n beth da i gael person enwebedig os nad ydych chi'n cyd-dynnu gyda'ch teulu.




## Camau nesaf

Yn y gyfraith rydyn ni eisiau newid 'perthynas agosaf' i 'person enwebedig'.

# Eiriolaeth



Rydyn ni eisiau i’r gyfraith ddweud y gallwch gael **eiriolwr** i'ch helpu i wneud penderfyniadau am eich gofal a thriniaeth.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n eich helpu i godi eich llais, neu'n siarad ar eich rhan.



Byddai eiriolwr yn gallu eich helpu i:

- fod yn rhan o ysgrifennu eich cynllun gofal a thriniaeth
- dewis beth ydych chi eisiau
- mynd i dribiwnlys.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Mae rhai pobl yn poeni na fydd eiriolwyr yn gallu eich helpu i benderfynu am driniaeth oherwydd nad yw wedi cael hyfforddiant meddygol.



Dywedodd eraill nad ydynt angen triniaeth feddygol. Maen nhw yno dim ond er mwyn rhoi arweiniad.



Mae’n rhaid i eiriolwyr iechyd meddwl gael hyfforddiant yn barod er mwyn gwybod sut i wneud eu gwaith.



## Camau nesaf

Byddwn yn cynnwys y syniad yma yn y gyfraith newydd.

# Y Ddeddf Galluedd Meddyliol




Mae’r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gyfraith wahanol sydd â rheolau am beth ddylai ddigwydd os na fydd rhywun yn gallu penderfyniadau drosto’i hun.




Weithiau dydy hi ddim yn amlwg a ddylai pobl gael eu cynnwys dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol neu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Rydyn ni eisiau gwneud hyn yn fwy clir.



## Dywedodd pobl

Doedd y rhan fwyaf o bobl ddim yn siŵr sut i wneud hyn.



## Camau nesaf

Byddwn ni'n meddwl mwy am sut i wneud hyn yn fwy clir.

# Adrannau damweiniau ac achosion brys



Mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn delio gydag argyfyngau. Maen nhw yn y prif ysbytai.




Yn aml bydd pobl sy'n wael iawn gyda chyflwr iechyd meddwl yn mynd i adran ddamweiniau ac achosion brys yn gyntaf.




Rydyn ni'n meddwl y dylai staff mewn adrannau damweiniau ac achosion brys gael y pŵer i gadw pobl yn yr ysbyty am gyfnod byr.



Byddai hyn os oes angen cadw rhywun yn ddiogel tra bod y doctoriaid yn cymryd golwg ar ei gyflwr iechyd meddwl.



# Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Roedd rhai pobl yn meddwl efallai y byddai adrannau damweiniau ac achosion brys angen mwy o staff.



# Camau nesaf

Byddwn yn edrych ar y ffordd orau i wneud hyn yn y gyfraith newydd.

# Mynd i ysbyty iechyd meddwl o'r carchar



Rydyn ni eisiau cael person annibynnol i wylio dros a helpu pan fydd rhywun yn gorfod symud o'r carchar neu **Ganolfan Alltudio Mewnfudwyr** i ysbyty iechyd meddwl, ac yn ôl eto.



Mae **Canolfan Alltudio Mewnfudwyr** yn le a ddefnyddir i gadw pobl sydd yna'n cael eu symud o'r wlad, os nad oes ganddynt hawl gyfreithiol i fod yn y Deyrnas Unedig ac nad ydynt wedi gadael o'u dewis eu hunain.



Rydyn ni eisiau i'r gyfraith ddweud bod yn rhaid gwneud y trosglwyddiad yma i'r ysbyty o fewn cyfnod penodol o amser.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



Dywedodd rhai pobl y byddai'r person annibynnol angen profiad arbennig.



## Camau nesaf

Byddwn yn parhau gyda’r newidiadau yma.

# Pobl sydd wedi bod mewn trafferth gyda’r gyfraith



Rydyn ni eisiau i gleifion penodol sydd wedi bod mewn trafferth gyda’r gyfraith ac sydd â risg uchel i allu dod allan o'r ysbyty a byw yn y gymuned dan amodau a rheolaeth gaeth.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno.



## Camau nesaf

Byddwn yn cynnwys hyn yn y gyfraith newydd.

# Y Goruchwylir Cymdeithasol



Mae **Goruchwyliwr Cymdeithasol** yn rhywun sy'n cadw llygad ar bobl sydd wedi dod allan o ysbyty iechyd meddwl i fyw yn y gymuned.



Mae’n gweithio gyda’r tîm iechyd meddwl lleol.



Mae'n gallu gorchymyn y person i fynd yn ôl i’r ysbyty os oes angen.

## Dywedodd pobl



Dywedodd rhai pobl y dylai Goruchwylwyr Cymdeithasol gael hyfforddiant arbennig.



Dywedodd rhai pobl y dylai Goruchwylwyr Cymdeithasol weld eu cleifion yn fwy aml.

# Camau nesaf



Bydd y Llywodraeth yn gweithio gydag eraill i benderfynu yn union beth ddylai Goruchwylwyr Cymdeithasol ei wneud a pha gefnogaeth a hyfforddiant sydd angen.

# Pobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig



Dydy anableddau dysgu ac awtistiaeth ddim yn gyflyrau iechyd meddwl.



Felly, does dim angen i bobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig fynd i ysbyty iechyd meddwl pob tro.



Efallai y bydd rhaid i bobl fynd i ysbyty iechyd meddwl os oes ganddynt gyflwr iechyd meddwl ac y gallai eu hymddygiad achosi niwed i'w hunain neu bobl eraill.

## Dywedodd pobl



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno na ddylai fod angen i bobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig fynd i ysbyty iechyd meddwl pob tro.




Roedd pobl yn poeni y gallai pobl gael eu cadw mewn ysbytai iechyd meddwl pan na ddylent.



Roedd rhai pobl yn meddwl nad oedd ysbyty iechyd meddwl fyth yn lle da i bobl gydag anabledd dysgu neu bobl awtistig.



Dylai fod yna lefydd eraill yn y gymuned ar gyfer pobl gydag anabledd dysgu a phobl awtistig sy'n cael problemau gyda'u hiechyd meddwl neu ymddygiad.



## Camau nesaf

Byddwn yn dal i feddwl am y ffordd orau i ddelio gyda hyn.

# Pobl gydag anabledd dysgu sy'n mynd i anhawster gyda'r gyfraith



Rydyn ni eisiau i bobl gydag anabledd dysgu sy'n mynd i anhawster gyda'r gyfraith allu mynd i ysbyty iechyd meddwl yn lle hyn.



Byddai hyn yn lle gorfod mynd i'r llys ac efallai i'r carchar.



## Dywedodd pobl

Roedd rhai pobl yn cytuno gyda'r syniad yma.



Roedd rhai pobl yn poeni am y syniad yma.



Roedden nhw'n meddwl y gallai pobl gael eu cadw mewn ysbyty iechyd meddwl am amser hir heb eu hawliau.

## Camau nesaf



Byddwn yn edrych ar y syniad yma yn fwy gyda grŵp o arbenigwyr.

# Adolygiadau Gofal (Addysg) a Thriniaeth



Adolygiad Gofal (Addysg) a Thriniaeth yw pan fydd gweithwyr proffesiynol yn edrych ar eich sefyllfa pan fyddwch chi'n byw yn y gymuned, ar ôl dod allan o'r ysbyty.




Rydyn ni eisiau i'r gyfraith ddweud y dylai gweithwyr proffesiynol wneud beth sydd wedi ei ysgrifennu yn yr adolygiadau yma.



## Dywedodd pobl

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno gyda hyn.



## Camau nesaf

Byddwn yn edrych ar beth ddylid ei gynnwys yn yr adolygiadau.

# Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)




Mae’r **Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)** yn cadw llygad ar yr holl wasanaethau iechyd a gofal ar gyfer y Llywodraeth.



Rydyn ni eisiau i'r Comisiwn Ansawdd Gofal edrych ar yr holl weithwyr proffesiynol sy'n sefydlu gwasanaethau ar gyfer pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl.




## Dywedodd pobl

Dywedodd rhai pobl y byddai’r CQC angen mwy o arian i wneud mwy o waith.



## Camau nesaf

Byddwn yn edrych ar beth ddylid ei gynnwys yng ngwaith y CQC.

# Gorchmynion Triniaeth Cymunedol (CTOs)



Mae **Gorchymyn Triniaeth Cymunedol (CTO)** yn esbonio pa driniaeth ddylech chi ei gael yn y gymuned ar ôl i chi ddod allan o'r ysbyty.




Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi ddilyn y CTO.



Rydyn ni'n poeni nad ydi'r gorchmynion yma wedi eu defnyddio'n gywir.
Mae pobl ddu 10 gwaith yn fwy tebygol o gael CTO na phobl wyn.



## Dywedodd pobl

Roedd gan bobl syniadau gwahanol am y CTOs.



Roedd rhai pobl yn credu eu bod yn helpu. Roedd eraill yn meddwl bod angen eu newid.



## Camau nesaf

Rydyn ni eisiau newid CTOs. Byddwn yn dal i edrych ar ffyrdd i'w gwella.